

Polisi Bwyd Cynaliadwy

Rhagarweiniad

Mae'r Gwasanaethau Masnachol yn cymryd eu cyfrifoldeb amgylcheddol o ddifri. Er nad oes diffiniad o 'fwyd cynaliadwy', rydym yn defnyddio'r diffiniad y dylai bwyd gael ei gynhyrchu, ei brosesu a'i fasnachu mewn modd sy'n cyfrannu at ffyniant economïau lleol a bywoliaethau cynaliadwy – yn y Deyrnas Unedig ac yn achos cynhyrchion sy'n cael eu mewnfario yn y gwledydd sy'n eu cynhyrchu. Rydym eisoes wedi mabwysiadu nifer sylweddol o arferion gorau yng ngheginau ac ym mannau bwyta Prifysgol Bangor, yn benodol;

- Bwydlenni tymhorol sy'n cynnig dewisiadau iachach, a bwyd a gynhyrchwyd yn lleol lle bo'n ymarferol
- Ni ddefnyddir pysgod o restr 'pysgod i'w hosgoi' Cymdeithas Cadwraeth y Môr (MCS)
- Achrediad Masnach Deg
- Banciau ailgylchu ym mhob lle bwyta, ac ailgylchu (compostio) yr holl wastraff bwyd ac olew coginio gwastraff
- Ailgylchu cardfwrdd o becynnau cyflenwi
- Lleihau'r defnydd o gwpanau taflu a defnyddio llestri tsieina a gwydrau yn eu lle
- Defnyddio pecynnau bioddiraddadwy neu ailgylchadwy ar gyfer brechedanau / saladau/ potiau ffrwythau a baratoir ar y safle

Datganiad Polisi

Mae'r adran arlwygo yn cydnabod eu cyfrifoldeb i ddarparu dewisiadau bwyd, yn cynnwys bwyd iachus a chynaliadwy i'n myfyrwyr, ein staff a'n hymwelwyr. Lle bo'n bosib, byddwn yn cadw ystyriaethau amgylcheddol a chymdeithasol mewn cof wrth ddarparu nwyddau a gwasanaethau, a byddwn yn annog ein cyflenwyr a'n contractwyr i leihau unrhyw effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol andwyol sy'n gysylltiedig â'r nwyddau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Ein bwriad cyffredinol yw sicrhau bod ein gwasanaethau'n fwyfwy cynaliadwy, ac yn enwedig, mae'n fwriad gennym, o flwyddyn i flwyddyn, i weithredu fel a ganlyn:

- Sicrhau bod cynnyrch tymhorol ar gael yn ein bwydlenni
- Trefnu bod pysgod o restr MCS "Pysgod i'w Bwyta" ar gael, a pheidio byth â gweini bwyd o'r rhestr "Pysgod i'w Hosgoi"
- Cynnal defnydd o gynnyrch lleol yn ein bwydlenni
- Sicrhau bod nwyddau Masnach Deg ar gael ar raddfa eang ar draws y Brifysgol
- Lleihau cyfanswm y gwastraff arlwygo sy'n cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi
- Parhau i arolygu maint y deunydd pecynnu a ddefnyddir, gan ymgynghori â'n cyflenwyr

Monitro

Mae'r Polisi hwn, sydd ar gael yn gyhoeddus, yn berthnasol i bob un o fannau bwyta'r Brifysgol yn ogystal â'n gwasanaeth arlwygo symudol. Bob blwyddyn, bydd y Pennaeth Arlwygo a Chynadleddau'n adolygu'r Polisi, a'n cynnydd ni wrth ochr y targedau uchod, a bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol yn adrodd arnynt wrth Grwp Tasg Prifysgol Bangor - Rheoli Cynaliadwyedd.

Cheryl Wright, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol
Dyddiedig Gorffennaf 2016